

PRICE, neu PRYS, Syr JOHN (1502? - 1555), notari, prif gofrestrydd y brenin mewn achosion eglwysig, ac ysgrifennydd cyngor Cymru a'r gororau

Enw: John Price

Dyddiad geni: 1502?

Dyddiad marw: 1555

Priod: Johan Price (née Williamson)

Plentyn: Joan Devereux (née Price)

Plentyn: Richard Price

Plentyn: Gregory Price

Rhiant: Gwenllian ferch Hywel Madog

Rhiant: Rhys ap Gwilym ap Llywelyn ap Rhys Llwyd ab Adam

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: notari, prif gofrestrydd y brenin mewn achosion eglwysig, ac ysgrifennydd cyngor Cymru a'r gororau

Maes gweithgaredd: Crefydd; Cyfraith; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: Evan David Jones

Ychydig a wyddys am ei flynyddoedd cynnar. Mab ydoedd i Rys ap Gwilym ap Llywelyn ap Rhys Llwyd ab Adam, o Frycheiniog, a Gwenllian, ei wraig, merch Hywel Madog. Yr oedd felly o'r un gwehelyth â'r bardd [Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rhys \[Llwyd\]](#), ac yng nghanol prysurdeb ei fywyd cymharol fyr, cadwodd yntau'n agos at y traddodiad barddol Cymreig. Y mae'n bur sicr mai ef oedd y John Pryse a gafodd radd B.C.L. yn Rhydychen, 29 Chwefror 1523/4, a'r Apprise a dderbyniwyd i'r Middle Temple, 5 Tachwedd 1523. Erbyn tua 1530 yr oedd yn un o swyddwyr Thomas Cromwell, a thrwy hynny daeth i sylw Harri VIII. Cafodd wasnaethu yng ngwledd briodas y brenin ac Anne Boleyn. Fel notari a phrif gofrestrydd y brenin mewn achosion eglwysig, cawn ef yn ystod y blynyddoedd nesaf yn prysur ysgrifennu ac ardystio dogfennau yngl n â diddymu awdurdod y Pab (e.e. ef a gofnododd y llw a gymerodd Thomas Cromwell, fel canghellor Prifysgol Caergrawnt, i gydnabod y brenin yn bennaeth yr Eglwys, 23 Hydref 1535), adroddiadau dirprwywyr ac ymwelwyr y mynachlogydd, yntau'n un ohonynt, a threfniadau'r diddymu, cyffesiadau a thystiolaethau yr esgob John Fisher, Syr Thomas More, ac arweinwyr gwrthryfel yn nwyrain a gogledd Lloegr, gweithrediadau ysgar y frenhines Ann, a phriodas y frenhines Jane. Er mor fawreddog ei theitl, ni ddygai ei swydd fawr elw iddo, ond yr oedd mewn safle i sicrhau rhoddion oddi ar law'r brenin. Penodwyd ef yn gofrestrydd eglwys gadeiriol Salisbury yn 1534. Cafodd brydles ar reithoraeth Llanfihangel loreth yn 1536-7, priordy Aberhonddu, 1537-8, a phrynodd hefyd briordy S. Guthlac yn Henffordd, a gwnaeth ei gartref yno. Gwnaethpwyd ef yn ysgrifennydd materion y Goron yng Nghymru a'r gororau yn 1540, a daliodd y swydd hyd ei farw. Cododd anhawster yngl n â'r swydd a phenderfynodd y Cyngor Cyfrin mai ef oedd i fod yn ysgrifennydd y cyngor yng Nghymru a'r gororau. Fe'i gosodwyd ar gomisiynau heddwch sir Fynwy a holl siroedd y goror, ar gomisiynau siantrïau Gogledd a De Cymru, 1546, ac ar gomisiynau llestri ac eiddo eglwysig yn Henffordd, 1552-3. Bu'n siryf Brycheiniog, 1543, a Henffordd, 1554, yn aelod seneddol dros ddinas Henffordd, 1553, a Llwydlo, 1554. Urddwyd ef yn farchog ar ddydd Mawrth Ynyd, 1546/7, yn fuan wedi coronni Edward VI. Gwnaethpwyd ef yn aelod o gyngor y gororau, 1551. Bu farw yn Hereford 15 Hydref 1555. Tybir iddo

briodi ddwywaith, gan ei fod yn ei ewyllys yn enwi merch, Elisabeth, a oedd yn briod yn 1555. Cofnodir ei briodas â Johan, merch John Williamson a'i wraig Johan, chwaer Elizabeth, gwraig Thomas Cromwell. Yn nh Cromwell yn Islington, 11 Hydref 1534, y bu'r briodas, ef yn 32 a hithau'n 18 oed. Ganwyd iddynt 11 o blant. Enwyd yr etifedd, GREGORY (ganwyd 6 Awst 1535), ar ôl mab Thomas Cromwell. (Bu ef yn aelod seneddol dros sir Henffordd, 1557-8, a thros y ddinas, 1572, 1584-97, ac yn siryf yno deirgwaith, 1567, 1576, 1596, ac ym Mrycheiniog ddwywaith, 1588, 1595.) Ail r Johan, un o'r merched (ganwyd 14 Tachwedd 1542), oedd [Thomas Jones](#) ('Twm Sion Cati').

Ymddiddorai Syr John Price yn hen hanes a llenyddiaeth Cymru; ef oedd un o'r rhai cyntaf i gasglu llawysgrifau Cymraeg a Chymreig; gadawodd ei lyfrau Cymraeg i Thomas Vaughan o Sir Forgannwg, ei llawysgrifau diwinyddiaeth i eglwys gadeiriol Henffordd, a'i llawysgrifau hanes a dyneiddiaeth i'w fab RICHARD. Ceir llawysgrifau a fu'n eiddo iddo yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn yr Amgueddfa Brydeinig, a llyfrgelloedd eraill; ac yn llyfrgell Coleg Balliol y mae llawysgrif o waith y beirdd, gramadeg cerdd dafod, diarhebion, a mângofion yn ei law. Ceir ynddi gywyddau ac awdlau moliant iddo gan [Lewis Morgannwg](#), Thomas Fychan, a [Gruffudd Hiraethog](#). Yn ôl yr [esgob Richard Davies](#), ef a osododd y Pader a'r Credo a'r Deg Gorchymyn mewn print, h.y. ef oedd yn gyfrifol am gyhoeddi [Yn y Lhyvyr hwnn](#)^[G], 1546/7. Cymerodd ran yn y ddatl a gododd oddi ar ymosodiad Polydore Vergil yn ei *Anglica Historia*, 1534, ar draddodiad [Sieffre o Fynwy](#). Safai ef yn gadarn dros gywirdeb yr hanes am Frutus a tharddiad y Brythoniaid o Droea, ac am [Arthur](#) a'i ymerodraeth. Erys drafft cynnar (cyn 1545) o'i amddiffyniad yn B.M. Titus MS. F. iii, ond yr oedd wedi ysgrifennu ateb llawnach cyn marw Edward VI, a siarsodd ei fab Richard i gyhoeddi hwnnw, yr hyn a wnaeth yn 1573 o dan y teitl *Historiae Britannicae Defensio*. Ysgrifennodd hefyd yn Lladin ddisgrifiad o Gymru a gyfieithwyd gan [Humphrey Llwyd](#) ac a gynhwyswyd gan [Dafydd Powel](#) yn *Historie of Cambria*^[G], 1584 Priodolir iddo hefyd draethawd ar adfer arian bath a ysgrifennwyd yn 1553.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

J. H. Davies (gol.), *Yny Lhyvyr Hwnn a Ban o gyfreith Howel* (Bangor 1902)

Calendar of Patent Rolls (Ed. VI, Philip and Mary)

Letters and Papers, Foreign and Domestic, of the Reign of Henry VIII

T. D. Kendrick, *British Antiquity, etc.* (Llundain 1950)

Llawysgrif Balliol yng Ngholeg Balliol, Rhydychen 353

Archifau LIGC: [NLW MS 9048E: The commonplace book of Sir John Price](#) (facsimile)

Darllen Pellach

R. Geraint Gruffydd, 'Yny lhyvyr hwnn' (1546): the earliest Welsh printed book, *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, Vol. 23, Pt. 2, (May 1969), p. 105-116

R. Geraint Gruffydd, 'Y print yn dwyn ffrwyth i'r Cymro: Yny Lhyvyr Hwnn, 1546', *Y Llyfr yng Nghymru*, Rhif 1 (1998), tt. 1-20

Ifor Williams, 'Blwyddyn cyhoeddi 'Yn y Lhyvyr hwnn'', *Journal of the Welsh Bibliographical Society* IV, 1932-6, tt.33-9

'Yny Lhyvyr Hwnn', *Y Casglwr pob peth printiedig*, Rhif 50 (1993), p. 5

Erthygl Wicipedia: [John Prise](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [65071134](#)

Wikidata: [Q3401718](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>^[G]

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

